



Dydd Llun 20ain Chwefror 2023, 6-8yh.

UNDEB MYFYRWYR ABERYSTWYTH

Y Cyfarfod Mawr 2023





Agenda:

- Sylwadau Croeso ac Agoriadol
- Penderfynu trefn ddaflau
- Cadarnhad o gyfarfodydd blaenorol - dim cofnodion i'w cadarnhau
- Derbyn adroddiad yr ymddiriedolwyr - (ceir adroddiad llawn yn y cyfrifon blynyddol drafft yma)
- Derbyn y cyfrifon blynyddol (cyfrifon blynyddol drafft yma)
- Penodi'r Archwilwyr:
FRANCIS GRAY CHARTERED ACCOUNTANTS Chartered accountants & statutory auditor,
32 Queens Road
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2H
- Cymeradwyo'r rhestr o gysylltiadau (cysylltiadau ar gyfer Gorffennaf 2023-2024):
 - UCM Charity =£4115 (2023-24) *Noder nad yw'r Cyf Cyff yn gofyn i gymeradwyo cysylltiad ag UCM y DU gan fod hyn yn cael ei drafod rhywle arall yn yr agenda.
 - Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) - £6338 (2022-23) (gan gynnwys ychwanegu timau at gysylltiad â BUCS 22/23 £6337.65 / Cysylltiad BUCS 21/22 £5994.00 gan gynnwys costau teithio BUCS)
 - Advice UK = Aelodaeth 21/22 £263.00
 - Child Poverty Action Group (CPAG) = Trwydded Ddefnyddiwr 21/22 £683.00
 - Real Living Wage (Cyflog Byw Go Iawn): £150
 - Cysylltiadau neu gynlluniau sy'n cynnig aelodaeth am ddim:
 - Welsh Council for Voluntary Action (WCVA)= nid ydym yn talu ar hyn o bryd
 - HALO
 - Mindful employer
 - Tourettes Friendly Employer and Organisation (Tourette's Action)
- Adroddiad y Swyddogion
- Diwygiadau i'r Cyfansoddiad
 - A ddylai Undeb y Myfyrwyr wneud y newidiadau arfaethedig i'r cyfansoddiad?
 - A ddylai UMAber benodi ei Ymddiriedolwyr Myfyrwyr (yn lle eu hethol) a newid cyfansoddiad y Pwyllgor Penodiadau?
- Eich Syniadau
- Unrhyw Faterion Eraill
- Cadw'r Dyddiad

Dylai Undeb y Myfyrwyr wneud y newidiadau arfaethedig i'r cyfansoddiad

Y Swyddog Cyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd gan: Aisleen Sturrock

Y Cwestiwn: A ddylai Undeb y Myfyrwyr wneud y newidiadau arfaethedig i'r cyfansoddiad

Manylion:

Mae cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr yn cael ei adolygu bob ychydig o flynyddoedd i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir. Gweler isod y newidiadau arfaethedig a'u rhesymeg:

Gwneud Rhywedd yn Niwtral

Diben: Gwneud y cyfansoddiad yn fwy cynhwysol i'r rhai nad ydynt yn defnyddio rhagenwau gwrywaidd neu fenywaidd.

- Newid '*ei...fe neu ei...hi*' i '*eu...nhw*' ym mhwyntiau 16.1, 61.6, a 93

Diddymu y Pwyllgor Gweithredol

Diben: Yn ymarferol, mae'r Senedd eisoes yn cyflawni llawer o rôl Pwyllgor Gweithredol yr Undeb ers tro (sy'n cynnwys tîm llawn y Swyddogion). Mae'r newid hwn yn dod â'r cyfansoddiad yn unol â gweithrediadau presennol.

- Newid pob cyfeiriad at 'Bwyllgor Gwaith yr Undeb' ym mhwyntiau 20, 22, 65 i 'Senedd'
- Ym mhwynt 28 dileu 'neu Bwyllgor Gwaith UMPA'.
- Dileu'r adran 'Pwyllgor Gweithredol yr Undeb' sy'n cynnwys cymalau 112 a 113.
- Diddymu 44.2

Galluogi Cynnal y Senedd yn Rhithiol a Thrwy Gymysgedd o Ddulliau ar Lefel Gyfansoddiadol

Diben: Newid y cyfansoddiad i alluogi cynnal y Cyf Cyff, Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig a'r Senedd yn rhithiol a thrwy gymysgedd o ddulliau.

Yn lle pwynt 31 rhowch 'Gellir cynnal cyfarfodydd yn gorfforol a/neu ar-lein cyn belled â bod yr holl gyfranogwyr yn gallu rhyngweithio â'i gilydd ar yr un pryd. Pan na fydd cyfarfodydd yn gwbl gorfforol, nac yn gwbl ar-lein, rhaid i gyfranogwyr nodi drwy bleidlais fwyafrifol eu bod yn fodlon â'r drefn a'r dechnoleg'.

Egluro 'Cyfarfod'

Diben: sicrhau ei bod yn glir pryd mae'r cyfansoddiad yn golygu cyfarfod ymddiriedolwyr neu Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol, Cyfarfod Cyffredinol Arbennig neu'r Senedd.

- Pwynt 12.1 – ‘fel y diffinnir yng nghymal 24’ a rhoi ‘y Senedd, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, neu Gyfarfod Cyffredinol Arbennig’ yn ei le.
- Pwynt 6, 14, 32, 43, 44.1, 47, 73, 81 rhoi (y Senedd, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, neu Gyfarfod Cyffredinol Arbennig’) yn sgil Cyfarfod. Yng nghymal 99 gosodir (y Senedd, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, neu Gyfarfod Cyffredinol Arbennig’) yn sgil ‘Cyfarfodydd UMPA’
- Ym mhwynt 54, 58, 73, 106, a 116.27 yn lle ‘*Cyfarfod*’ rhoi ‘Cyfarfod y Senedd, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, neu Gyfarfod Cyffredinol Arbennig’.
- Ym mhwynt 96 rhoi ‘ymddiriedolwr’ cyn cyfarfod.
- Ailosod ‘Presenoldeb mewn Cyfarfodydd’ gyda ‘Phresenoldeb yn y Senedd, mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a Chyfarfod Cyffredinol Arbennig’
- Mae pwynt 37 yn disodli cyfarfod gyda ‘Senedd, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, neu Gyfarfod Cyffredinol Arbennig’

Egluro ‘Cadeirydd’

Diben: sicrhau ei bod yn glir pryd mae'r cyfansoddiad yn golygu Cadeirydd Ymddiriedolwr neu Gadeirydd yr Undeb.

Pwynt 32.1 a 39, rhoi 'Cadeirydd yr Undeb' yn lle 'cadeirydd'.

Egluro'r ffordd o alw am Bleidlais Holl Fyfyrywyr a Chyfarfod Cyffredinol Arbennig

Diben: Egluro sut y byddai aelod cyffredin o Undeb y Myfyrywyr yn mynd ati i alw am Bleidlais Holl Fyfyrywyr neu Gyfarfod Cyffredinol Arbennig

- Dileu 44.2
- Ym mhwynt 44.3, yn lle ‘unrhyw aelod cyffredin’ rhoi ‘deiseb ddiogel o 250 o aelodau cyffredin (gan gynnwys nifer y myfyrywyr) a gyflwynwyd i Gadeirydd yr Ymddiriedolwr’. Byddai'r un peth i alw am bleidlais holl fyfyriwr ynghylch diswyddo ymddiriedolwr allanol.
- Ym mhwynt 62 ychwanegir '(gan gynnwys rhif myfyriwr)' yn dilyn '250 o aelodau cyffredin'
- Ym mhwynt 27 yn lle 'un rhan o ddeg o'r aelodaeth, p'un bynnag sydd fwyaf' rhodder 'deiseb ddiogel o 250 o aelodau cyffredin (gan gynnwys nifer y myfyrywyr).

Erill – Golygiadau Llai:

- Newid pwynt 27; diwygiwyd 12.2; Newid pwynt 28
- Pwynt 40 – newid 'o bryd i'w gilydd ac o le i le' i '(i symud amser neu le)
- Newid pwynt 35 –
- Pwynt 41 – newid Smedd i Senedd
- Pwynt 48.1, 48.2, 48.3
- Pwynt 28 dileu'r gair Assembly/Cynulliad
- Pwynt 35 – mewnosod '%' yn sgil '50'
- 55, 68 – newid ethol i benodi
- Newid pwynt 116.25 o 'Swyddogion Rhan Amser' i 'Swyddogion Gwirfoddol'
- 84 – dileu 'bydd y Prif Weithredwr ar gais y ddau Ymddiriedolwr'
- Pwynt 7 dileu S ar ôl AUSU.

A ddylai UMAber benodi ei Ymddiriedolwyr Myfyrwyr (yn lle eu hethol) a newid cyfansoddiad y Pwyllgor Penodiadau?

Dylai'r Pwyllgor Penodiadau gael ei ffurfio gan Llywydd Undeb y Myfyrwyr, ac un Ymddiriedolwr Swyddog ac Ymddiriedolwr Allanol arall.

Y Swyddog Cyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd gan: Aisleen Sturrock

Y Cwestiwn: A ddylai UMAber benodi ei Ymddiriedolwyr Myfyrwyr (yn lle eu hethol) a newid cyfansoddiad y Pwyllgor Penodiadau?

Manylion:

Mae Undeb Myfyrwyr Aberystwyth (UMAber) yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Ymddiriedolwyr gyda 12 aelod: y pum Swyddog Sabothol, 5 Ymddiriedolwr Allanol, a dau Ymddiriedolwr Myfyriwr (un ôl-raddedig, un is-raddedig).

mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ei wneud?

Mae Ymddiriedolwyr yr Undeb yn gyfrifol am strategaeth, llywodraethu a chyllid y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn cynnal cyfarfodydd bedair gwaith y flwyddyn, lle mae'n cael y diweddaraf ar y gweithgareddau y mae staff a swyddogion yr Undeb yn eu gwneud, ystyried dogfennau allweddol megis cyfrifon ariannol a chynlluniau strategol a gweithredol a thrafod a dadlau materion allweddol sy'n effeithio ar yr Undeb.

Cyd-destun ehangach

Pan gyflwynwyd y Ddeddf Elusennau 2005 yng Nghymru a Lloegr, roedd yn rhaid i'r rhan fwyaf o Undebau Myfyrwyr ffurfio "bwrdd ymddiriedolwyr" yn hytrach na dibynnu'n unig ar eu pwyllgor gweithredol o swyddogion etholedig i weithredu fel y prif gorff rheoli cyfreithiol.

Roedd dogfennau UCM ar y pryd yn argymhell bod tri chategori o ymddiriedolwyr – swyddogion sabothol etholedig, fel arfer "prif ddeiliaid swyddi'r undeb" yn unol â'r Ddeddf Addysg 1994; ymddiriedolwyr lleig neu allanol a benodir ar sail eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hamrywiaeth; ac ymddiriedolwyr myfyrwyr.

Yn wreiddiol, er bod tri chwarter o Undebau Myfyrwyr (UM) wedi dewis ethol Ymddiriedolwyr yn uniongyrchol, ers hynny, bu symudiad graddol oddi wrth ethol Myfyrwyr Ymddiriedolwyr.

Yn y cyfrif diwethaf yn 2018, roedd Aberystwyth ymysg llai nag 20 o UMau yng Nghymru a Lloegr sy'n dal i ethol myfyrwyr sy'n ymddiriedolwyr (Jim Dickinson, 2019).

Pam ddylid penodi?

Yn anffodus, gwelir yn gyson nifer isel iawn yn pleidleisio yn etholiadau Ymddiriedolwyr Myfyrwyr UMAber, gydag ychydig o ymgeiswyr yn sefyll. Yn hydref 2021, y tro diwethaf i ni gynnal etholiad ar gyfer ein hymddiriedolwyr myfyrwyr, dim ond 94 o fyfyrwyr a bleidleisiodd yn ein pleidlais i Israddedigion. Yn y bleidlais ar gyfer Ymddiriedolwr Ôl-raddedig, dim ond 83 o fyfyrwyr a bleidleisiodd.

Ar ôl i'n Rôl Ymddiriedolwr Myfyriwr Israddedig gael ei hystyried yn wag yn dilyn tri chyfarfod a gollwyd heb gyfathrebu, yn hydref 2022, fe wnaethom annog myfyrwyr i sefyll yn yr etholiad ar gyfer y swydd. Yn anffodus ni roddodd neb eu henw ymlaen.

Adlewyrchir lefelau isel yr ymgeiswyr sy'n cymryd rhan a nifer y myfyrwyr sy'n pleidleisio ar draws UM eraill sydd hefyd yn ethol Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrwyr, yn enwedig pan gynhelir yr etholiad ar wahân i'r prif etholiad sabothol.

Mae cael nifer isel yn pleidleisio yn cyfyngu ar unrhyw ddilysrwydd democrataidd a all fod gan Fyfyrwyr Ymddiriedolwyr etholedig. Ymhellach, yn rôl yr ymddiriedolwr, nid oes gan unigolion atebolrwydd uniongyrchol i'r etholwyr – y bwrdd cyfan sy'n dal y rôl honno, felly gallai ymddangos yn amhriodol fframio'r rôl yn nhermau ymrwymiad maniffesto ac atebolrwydd personol (Jim Dickinson, 2019).

Tra'n osgoi'r materion sy'n gysylltiedig ag ethol Myfyrwyr Ymddiriedolwyr, byddai Penodi Ymddiriedolwyr yn galluogi'r Undeb i:

- Sicrhau y gall yr undeb reoli'r sgiliau, y wybodaeth a'r amrywiaeth ar y bwrdd yn well.
- Ymestyn yn well at fyfyrwyr anhraddodiadol a myfyrwyr ymylol a fyddai'n ei chael yn frawychus neu'n anodd cymryd rhan mewn etholiadau.

Gellir gweld tystiolaeth o hyn gan brofiadau UMau sydd eisoes wedi newid i benodiad Ymddiriedolwyr Myfyrwyr: maent wedi 'tueddu i ganfod eu bod yn gallu rheoli proffil SK&D eu bwrdd yn well ac wedi dod â set lawer ehangach ac amrywiol o ymgeiswyr' (Jim Dickinson, 2019).

Diwygiadau i'r Cyfansoddiad

Byddai'r cynnig hwn yn diwygio'r cyfansoddiad:

- Yn lle cymal 54 rhoddir y canlynol: 'Yn amodol ar Gymal 55 isod, bydd hyd at ddau Ymddiriedolwr Myfyriwr, un Israddedig ac un Ôl-raddedig, yn cael eu penodi trwy bleidlais fwyafrif syml o'r Pwyllgor Penodi Ymddiriedolwyr. Ond ni fydd penodiad o'r fath yn effeithiol oni bai ei fod wedi'i gadarnhau gan bleidlais fwyafrif syml o'r Senedd, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, neu Gyfarfod Cyffredinol Arbennig'
- Yng nghymal 55, newidiwch 'etholiad' i 'benodiad'.

Newid y Pwyllgor Penodiadau

Ar hyn o bryd mae gan Undeb y Myfyrwyr Bwyllgor Penodiadau sy'n gwasanaethu i benodi Ymddiriedolwyr Allanol yr UM. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys y 'Llywydd, un Ymddiriedolwr

Swyddog arall, un Myfyriwr Ymddiriedolwr, y Prif Weithredwr, a pherson a enwebwyd gan Brifysgol Aberystwyth'.

Ni ddylai Prif Weithredwr UM, na Staff y Brifysgol, ymwneud yn uniongyrchol â dewis ymddiriedolwyr UM.

Diwygiadau i'r Cyfansoddiad

Byddai'r cynnig hwn yn diwygio'r cyfansoddiad:

- Yng nghymal 116.5 o Gyfansoddiad Undeb Myfyrwyr Aberystwyth, dylid ychwanegu'r gair 'Ymddiriedolwr' cyn 'pwyllgor penodiadau'.
- Yng nghymal 116.5, rhoi 'ac un Ymddiriedolwr Allanol' yn lle 'un Myfyriwr Ymddiriedolwr, y Prif Weithredwr, a pherson a enwebwyd gan Brifysgol Aberystwyth'.

Cefnogi Hyfforddiant Cryfder a Chyflyru

Dylai Undeb y Myfyrwyr dreialu sesiwn Cryfder a Chyflyru wythnosol a gynhelir gan hyfforddwr i glybiau fanteisio arno.

Y Swyddog Cyfrifol: Y Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr

Cyflwynwyd gan: Chris Thomas. Bayanda Vundamina fydd yn siarad ar ei ran.

Y Cwestiwn: A ddylai Undeb y Myfyrwyr dreialu sesiwn Cryfder a Chyflyru wythnosol a gynhelir gan hyfforddwr i glybiau fanteisio arno.

Manylion:

Yw Hyfforddiant Cryfder a Chyflyru?

Cryfder a Chyflyru (S&C) yw dewis a datblygu ymarferion deinamig/statig a ddefnyddir i wella perfformiad corfforol. Er ei fod o fudd i athletwyr yn wreiddiol, mae bellach yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yn y byd chwaraeon ac yn fwy cyffredinol.

Hyfforddiant Cryfder a Chyflyru ym Mhrifysgol Aberystwyth

Ar hyn o bryd mae amrywiaeth o glybiau chwaraeon UMAber, gan gynnwys Rygbi Dynion a phêl-rwyd Merched, yn defnyddio sesiynau cryfder a chyflyru o'u pocedi eu hunain. Ar hyn o bryd, mae sesiwn awr o hyd yn y ganolfan chwaraeon, dan arweiniad hyfforddwr hyfforddedig, yn costio £50.

Cynigiad

Mae Undeb y Myfyrwyr yn rhoi sesiynau Cryfder a Chyflyru wythnosol ar brawf a gynhelir gan hyfforddwr er mwyn i glybiau allu gwneud defnydd ohoni. Dylid cynnig y sesiynau hyn naill ai am ddim neu am dâl enwol. Dylai fod ar gael i bawb ond bod blaenoriaeth i glybiau chwaraeon BUCS.

Os bydd yn llwyddiannus, dylai Undeb y Myfyrwyr ymchwilio i barhau i ddarparu'r sesiynau y tu hwnt i'r cyfnod prawf.

Dylem gynnal Wythnos SHAG blynyddol

Y Swyddog Cyfrifol: Swyddog Llesiant

Cyflwynwyd gan: Aisleen Sturrock

Y Cwestiwn: Ddylai'r UM gynnal Wythnos SHAG blynyddol?

Manylion:

Eleni, fe gynhaliwyd Wythnos SHAG fel rhan flaenoriaethau'r Llywydd. Gwelwyd nifer dda o bobl yn dod I'r digwyddiadau a chawsom adborth arbennig. Cawsom hefyd rai adborth negatif gyda rhai myfyrwyr yn mynegi nad oeddent yn hapus y cynhaliwyd yr wythnos hon.

Nod yr wythnos hon yw magu perthynas iach tuag at ryw os ydych chi am ei gael neu beidio ac i gadw'n ddiogel wrth ei wneud neu'n trio pethau newydd.

Oherwydd yr adborth negatif hwn, rydym am glywed barn y myfyrwyr. Rydym eisiau gwybod ai digwyddiad defnyddiol a hwyl yr hoffai myfyrwyr ei weld bob blwyddyn, gan ei ddatblygu yn fwy bob tro, neu ai digwyddiad untro ddylai fod.

Dysgu mwy am yr Wythnos SHAG 2022 yma:

<https://www.umaber.co.uk/newidaber/ymgyrchoedd/wythnosshag/>

Datgysylltu â'r UCM

Y Swyddog Cyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd gan: Aisleen Sturrock

Y Cwestiwn: A ddylai'r Undeb ddatgysylltu ag UCM y DU?

Manylion:

Bu'r UCM (Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr) yr union beth oedd angen ar fyfyrwyr ac UMau. Roeddent yn wleidyddol, yn gwneud newid a rhoi disgowntiau da i fyfyrwyr. Yn ddiweddar, mae'r UCM wedi taro allan yn ganghenau llai, gydag UCM y DU, UCM Charity, ac UCM Totem.

Mae bod yn gysylltiedig ag UCM y DU yn dod gyda manteision ac anfanteision, ond o ystyried faint mae'n ei gostio, byddai'n werth clywed barn y myfyrwyr. Rydym yn dewis bod yn gysylltiedig ag e bob blwyddyn felly os byddwn yn y pendraw yn penderfynu ar gysylltu ag e eto wedi i ni ddatgysylltu, gallem ni ymuno ag e eto.

Rydym yn talu dros £20,000 bob blwyddyn i UCM y DU ac UCM Charity i fod yn gysylltiedig â nhw.

Trwy UCM Charity rydym yn cael yr holl gyngor gwleidyddol fel swyddogion yn ogystal â hyfforddiant. Dyma gyfle i swyddogion rwydweithio gydag Undebau Myfyrwyr eraill, gan adael i ni fagu cysylltiadau a rhannu syniadau i wella pob Undeb. Rydym yn talu £4,000 i'r UCM I fanteisio ar y rheiny. Dyma pan y gallem godi ein llais ar lefel genedlaethol (ee trwy gynhadledd UCM y DU, y Gynhadledd Rhyddid, Cynhadledd UCM Cymru). Rydym o leiaf yn talu £16,000 bob blwyddyn (heb gyfri mynychu cynhadledd UCM y DU).

Er bod gan UCM y DU ei fanteision, gan roi llais ar lefel genedlaethol i ni, daw aelodaeth o UCM Charity gyda mwy o fanteision i Undeb y Myfyrwyr felly mae £16,000 y flwyddyn yn dod o draws fel defnydd aneffeithiol o arian. Credaf y gallem ni ddefnyddio'r arian hyn er lles ein myfyrwyr.

Mae llawer o Undebau Myfyrwyr eisoes wedi datgysylltu gan gynnwys Met Caerdydd.

Mae bod yn gysylltiedig ag UCM y DU yn dod gyda manteision ac anfanteision, ond o ystyried faint mae'n ei gostio, byddai'n werth clywed barn y myfyrwyr. Rydym yn dewis bod yn gysylltiedig ag e bob blwyddyn felly os byddwn yn y pendraw yn penderfynu ar gysylltu ag e eto wedi i ni ddatgysylltu, gallem ni ymuno ag e eto.

Dylai yr UM ymrwymo i Gynllun Effaith Werdd yr Undebau Myfyrwyr a lobbio'r Brifysgol i fynd yn fwy cynaliadwy.

Dylai'r UM ymrwymo i gynllun Effaith Werdd yr Undebau Myfyrwyr (y pecyn cymorth cynaliadwyedd a chynllun gwobrau ar gyfer y mudiad myfyrwyr) a'i helpu i fod yn fwy cynaliadwy. Dylai hefyd lobbio'r Brifysgol i fynd yn fwy cynaliadwy.

Y Swyddog Cyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd gan: Hector Duncan

Y Cwestiwn: A ddylai yr UM ymrwymo i Gynllun Effaith Werdd yr Undebau Myfyrwyr a lobbio'r Brifysgol i fynd yn fwy cynaliadwy.

Manylion:

Rydym yng nghanol argyfwng hinsoddol ac amgylcheddol. Dyma fater a fydd yn cael effaith ar bawb yn Aberystwyth: myfyrwyr, staff a'r gymuned leol, dros y blynyddoedd i ddod, bydd effaith gymdeithasol, economaidd a chorfforol yr argyfwng yn gwaethygu. Daeth Aberystwyth yn 111 allan o 153 ym Mwrdd Cynghrair Prifysgolion Pobl a'r Blaned 2022. Mae'n rhaid inni wneud yn well na hyn.

Fel yr UM ac fel Prifysgol, mae rhaid i ni ddangos arweiniad yn ein cymuned i greu dyfodol mwy cynaliadwy i bawb. Er mwyn mynd I'r afael â'r argyfwng amgylcheddol bydd rhaid ymdrechu a chydweithio ar bob lefel o lywodraeth, o leol i genedlaethol. Dyma pam fod rhaid I'r UM a'r Brifysgol, fel rhan annatod o gymuned Aberystwyth, chwarae rôl flaengar. Cefais fy nenu i Aberystwyth diolch I'w chynlluniau newid hinsawdd arloesol, mae'n rhaid i gyd-ymdrechu i fod yn arweinwyr yn y sector Prifysgolion pan ddaw ati i strategaethau, polisiau ac arfer arloesol.

Ers y llynedd, mae Undeb y Myfyrwyr wedi ymrwymo i lawer o weithredu positif i fynd I'r afael â'r argyfwng amgylcheddol, o lobbio'r Brifysgol i wrthod ariannu mewn tanwyddau ffosil, yn ogystal â mynd ati i gasglu adborth myfyrwyr ar gynnaladwyedd, i drefnu Wythnos Werdd (a gynhelir ddiwedd Chwefror 2023). Mae'r gweithredoedd yn dod trwy gyngor yr Effaith Werdd i Undeb Myfyrwyr: cynllun sydd wedi ennill gwobrau a ddyfeisiwyd gan yr Cenhedloedd Unedig i gynnig cymorth strategaethol mewn Undebau Myfyrwyr i feithrin arferion amgylcheddol a chymdeithasol cynaliadwy.

Dylai'r Brifysgol ac UMAber roi'r gorau i fancio gyda banciau sy'n buddsoddi mewn tanwydd ffosil a newid i banc sy'n wyrddach a mwy moesegol

Y Swyddog Cyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflwynwyd gan: Luzie Volckers

Y Cwestiwn: A ddylai'r Brifysgol ac UMAber roi'r gorau i fancio gyda banciau sy'n buddsoddi mewn tanwydd ffosil a newid i fanc mwy moesegol a gwyrdd yn lle hynny?

Manylion:

Mae angen i Brifysgol Aberystwyth ac UMAber roi'r gorau i fancio gyda Barclays, HSBC neu unrhyw fanciau eraill sy'n gysylltiedig â chorfforaethau echdynnu tanwydd ffosil, a, cyn gynted â phosibl, trosglwyddo'r holl arian i fanc sydd wedi nodi telerau buddsoddiadau moesegol a chynaliadwy yn glir.

Mae'r Brifysgol a'r UM yn berchen ar symiau sylweddol o arian, gan gynnwys hyfforddiant a delir gan (neu ar ran) pob myfyriwr. Ar hyn o bryd mae'r symiau hyn dan ofal a rheolaeth Barclays a HSBC, dau o fanciau mwyaf y DU. Barclays, y banc a ddefnyddir fwyaf yn genedlaethol ac sy'n gweinyddu 16% o holl gyfrifon cyfredol y DU, yw buddsoddwr mwyaf Ewrop mewn tanwydd ffosil, ac mae wedi ariannu'r diwydiant tanwydd ffosil gydag amcangyfrif o \$20bn. Mae hefyd wedi cael ei graffu'n llym am ei gysylltiadau â chwmnïau sy'n gwerthu arfau i Israel.

Yn y cyfamser, mae HSBC, sydd hefyd yn buddsoddi mewn corfforaethau tanwydd ffosil, wedi honni trwy ddatganiadau eu bod am roi pen ar roi unrhyw arian i fusnesau sy'n gysylltiedig â datgoedwigo, ond mae wedi methu â chadw at ei addewidion. Yn lle hynny, amcangyfrifwyd y byddai HSBC yn derbyn dros \$20mio yn 2021 gan fusnesau sy'n gysylltiedig â datgoedwigo. Mae hyn yn dangos, er bod effeithiau bancio ar yr hinsawdd yn llai gweladwy, maent ymhlith y rhai mwyaf arwyddocaol. Mae ystyried y diwydiannau a gefnogir gan gyllid y Brifysgol ac UM yn gam angenrheidiol yn y datblygiad tuag at ddod yn Brifysgol wyrddach. Fel Prifysgol sy'n ymfalchïo yn ei hymchwil ecolegol a'r amgylchedd a'r cyrsiau a gynigir, mae'n amhriodol i Brifysgol Aberystwyth ac UMAber fod hyd yn oed yn gysylltiedig yn anuniongyrchol â'r diwydiant tanwydd ffosil. Rydym yn mynnu felly, pan ddaw contract Prifysgol Aberystwyth â Barclays i ben yn y gorffennol ym mis Ebrill 2024, bod Prifysgol Aberystwyth yn ogystal ag UMAber yn trosglwyddo eu harian i fanc sydd wedi datgan telerau clir sy'n negyddu unrhyw gysylltiad ag unrhyw gorfforaethau echdynnu tanwydd ffosil neu anfoesegol, megis y Co-op.

Byddai sicrhau cefnogaeth yr UM yn ei gwneud hi'n fwy tebyg fyth y bydd y cais hwn yn dwyn ffrwyth yn y Brifysgol a'i rhoi hi ar ben ffordd at fod yn Brifysgol fwy cynaliadwy.

Dylai'r UM gefnogi a chydsefyll gyda'r UCU a'i streiciau presennol

Y Swyddog Cyfrifol: Y Swyddog Materion Academaidd

Cyflwynwyd Gan: Harry Marsh & Hector Duncan

Y Cwestiwn: A ddylai'r UM gefnogi streiciau'r UCU?

Manylion:

Rwy am i'r UM fabwysiadu safiad o gefnogi streiciau presennol yr UCU. Mae'n bwysig ein bod yn cydsefyll gyda staff y Brifysgol sydd, oherwydd y sefyllfa sydd ohoni, yn gorfod mynd ar streic o achos gostyngiad mewn cyflog, amodau gweithio'n gwaethygu a thoriadau ar eu pensiynau yn ogystal â dyfodol hir dymor y sector Prifysgolion. Ein hamgylchedd ddysgu yw eu hamgylchedd addysgu. Nhw yw ein darlithwyr, ein llyfrgellwyr, ein hymchwilwyr, ein staff cymorth a phob un yn rhan annatod o'n Prifysgol.

Fel rhan fawr o gymuned y Brifysgol, mae'n rhaid i'r UM ddangos bod ein haddysgwyr a'n holl staff yn y Brifysgol o bwys trwy ddatgan ein cefnogaeth am eu streiciau. O'r sawl un fy mod i wedi cael gyda nhw, maent yn gyndyn i gymryd y gweithredoedd hyn oherwydd ei heffaith ar fyfyrwyr, ond dyma'r opsiwn olaf sydd ganddynt oherwydd bod eu hamgylchiadau gweithio bellach yn anghynladwy.

Rwyf am gael datrysiad cyn gynted â phosibl i'r ddadl hon er mwyn lleihau'r aflonyddwch i fyfyrwyr. Ni fydd hyn ond yn digwydd os byddwn yn gwrandao ar bryderon aelodau staff y Brifysgol ac yn mynd i'r afael â hwy. Po gyntaf y byddwn yn cymeradwyo ac yn dod â'r myfyrwyr at ei gilydd er budd staff y brifysgol, po gyntaf y bydd yr anghydfod hwn yn dod i ben gobeithio. Mae'r UM yn elusen sy'n gweithio er lles ni'r myfyrwyr. Mae o fudd i ni sicrhau bod gan ein staff prifysgol amodau gweithio da. Mae hefyd o ddiddordeb i ni gan y gallai llawer fynd ymlaen i ddilyn gyrfaedd yn y byd academaidd.

Yn olaf, dyma'r peth iawn i'w wneud, mae staff ein Brifysgol yn gweithio mor galed i ddarparu'r profiad addysgol gorau y gallant. Mae'n bryd iddynt gael y parch y maent yn ei haeddu ac rydym yn dangos ein gwerthfawrogiad am hynny.

A ddylai UMAber leihau nifer y Swyddogion Adrannol?

Trwy gael un swyddog adrannol fesul cyfadran, byddai'n golygu bod pob myfyriwr yn cael ei gynrychioli oherwydd na fydd rolau gwag.

Y Swyddog Cyfrifol: y Swyddog Materion Academaidd

Cyflwynwyd Gan: Zoe Hayne

Y Cwestiwn: A ddylai UMAber leihau nifer y Swyddogion Adrannol?

Ar hyn o bryd mae yna 6 rôl Swyddog Adrannol, FELS IR, FELS ÔR, FASS IR, FASS ÔR, FBAPS IR a FBAPS ÔR. Rwy'n cynnig cyfuno'r rolau hon yn dri a bod un Swyddog yn unig yn cynrychioli pob cyfadran.

Ers y blynyddoedd academaidd 19/20, 20/21, 21/22, 22/23 nid oedd unrhyw bryd pan gafodd pob 6 rôl ei llenwi. Dim ond mewn 1 o'r 4 cyfnod hwn roedd cynrychiolydd IS ac ÔR i un gyfadran. Nid yw rolau gwag yn adlewyrchu'n dda ac mae'n gallu peri i rai myfyrwyr deimlo eu bod yn cael eu cynrychioli oherwydd nad oes ganddynt Swyddog Adrannol. Bu digon o weithiau pan benderfynodd Swyddog adrannol IR ar gynrychioli ar lefel ÔR pan na chafodd ei llenwi, trwy gyfuno'r rolau'n un byddai gan y cynrychiolydd y dulliau, yr adnoddau a'r gefnogaeth i gynrychioli'n effeithlon.

